

# Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd Arolwg Blynyddol 2020/21



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Arwain Vet Cymru

Gwahoddiad i filfeddygfeydd ffermydd a chymysg enwebu Pencampwr Rhagnodi Milfeddygol (VPC).


Derbyniodd Pencampwr Rhagnodi Milfeddygol hyfforddiant penodol ar-lein ym **mis Medi 2020**.

O ganlyniad, lluniwyd **cynlluniau gweithredu ar gyfer stiwardio gwrthfotigau** mewn milfeddygfeydd a datblygwyd argymhellion ar gyfer polisi rhagnodi cyffuriau milfeddygol.

**Mae dros 80% o filfeddygfeydd** wedi cofresru. **39 o Bencampwr Rhagnodi Milfeddygol** cynrychioli **37 o filfeddygfeydd** yng Nghymru.

Mae Pencampwr yn cwrdd yn rheolaidd mewn **grwpiau a gweithdai trafod** gyda'r nod o wella'r ffordd y **rhagnodir gwrthfotigau** mewn gwartheg a defaid.

Cewch fwy o wybodaeth yn y cyfnodolyn Antibiotics, sydd ar gael yma **[www.mdpi.com/2079-6382/10/3/253](http://www.mdpi.com/2079-6382/10/3/253)**.



Mae **Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru** wedi datblygu system ar gyfer **casglu a chofnodi data ynghylch defnyddio gwrthfotigau ar lefel y fferm**. Ar ôl cyfnod treialu llwyddiannus, mae'r system bellach yn casglu data byw.



Gwnaeth prosiect gan **Iechyd Da** i ymchwilio i ymarferoldeb a'r parodrwydd i **gasglu data am gyflenwadau gwrthfotigau nodi gofynion a rhwystrau allweddol**.

Cyfrannodd aelodau **Grŵp Cyflenwi Anifeiliaid a'r Amgylchedd** at ddeunydd hyfforddi ar **wella gofal ac iechyd lloï gwryw o'r fuches odro** gyda golwg ar leihau'r angen am wrthfotigau yn yr anifeiliaid bregus hyn.



Cynhaliodd **Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU** arolwg o drosglwyddiad AMR yn amgylchedd dŵr cefn gwlad Cymru. Trafodwyd y dystiolaeth o achosion ac effeithiau **cyfranwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol AMR** gan fwydo ein polisi yn y dyfodol. I ddarllen yr adroddiad, cliciwch ar **[www.erammp.wales/amr](http://www.erammp.wales/amr)**